# Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

## Cofnodion Cyfarfod

## Dydd Iau 16 Mawrth 2023

## Canolfan Hamdden, Caerfyrddin, 6pm

**Yn Bresennol:** **Aelodau**:

Mark Hadley (MH) – Cadeirydd
y Fforwm Mynediad Lleol
David Stacey (DS)
Wyn Owen (WO)
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Phil Snaith (PS)
Dave Gravelle (DG)
Peter Griffiths (PG)
Jillie Gardner (JG)

**Ysgrifennydd –** Jason Lawday (JL) – Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad CSC

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd**

Alan Richards (AR) – Clwb Cerdded Pontarddulais
Phil Morgan (PM) Arweinydd Tîm Rheoli Tir CNC
Jenny Bringloe (JB) (yn bresennol yn rhithwir)

**Ymddiheuriadau:** **Aelodau**:

Tara-Jane Sutcliffe (TS)
Karen Burch (KB)
Sean Brown (SB

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:**

Neil Thomas
Y Cynghorydd Edward Thomas (ET) - Cynghorydd Sir ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith

Nodyn:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

| EITEM | CAMAU GWEITHREDU |
|---|---|
| **Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd MH y fforwm a chyflwynodd JL fel Ysgrifenyddiaeth Dros Dro y Fforwm Mynediad Lleol.<br>Darllenodd MH yr ymddiheuriadau oedd wedi dod i law. | |
| **Eitem 2 – CYFLWYNIAD - ADOLYGIAD O'R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY**<br><br>JB - Cyflwyniad a chyflwyniad sleidiau sy'n cynnwys traethu.<br>Eglurwyd bod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn aros yr un fath ac mai dim ond y cynlluniau gweithredu oedd yn destun yr adolygiad. Wedi gwneud crynodeb o ganfyddiadau lefel uchel gan ddefnyddio system RAG (Coch, Melyn, Gwyrdd) ar gyfer blaenoriaethau isel, canolig ac uchel. Wedi ystyried adborth gan yr Uned Cefn Gwlad a'r Fforwm Mynediad Lleol ar weithredu a blaenoriaethu. Mae nifer fach o flaenoriaethau wedi newid. Bydd yr adolygiad yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fel atodiad.<br>Dywedodd MH fod y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd, y cyfeirir ato yn yr adroddiad, wedi'i ddiwygio.<br>Dywedodd JB fod yr adolygiad yn ymwneud â'r cyfnod blaenorol.<br><br>MH – Yn hapus gyda'r Adolygiad, sy'n adlewyrchu pynciau a drafodir yn rheolaidd yn y Fforwm Mynediad Lleol. Gan gyfeirio at yr arolwg 100%, dywedodd JB y dylai elfennau o'r cynllun gweithredu fod yn gyraeddadwy. Mae arolwg 100% yn safon uchel iawn, ond yn gyraeddadwy. Un o'r materion blaenoriaeth uchel yw'r diffyg cyllid i gynyddu cyfran y llwybrau troed sydd ar agor, yn hygyrch ac wedi'u harwyddo.<br><br>RL – Beth yw'r camau nesaf a'r broses ar gyfer ymgysylltu ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau? Ble mae'n mynd ym musnes y Cyngor Bydd diffyg adnoddau yn cael effaith ar gyflawni.<br><br>**Cam Gweithredu** – Dosbarthu'r cyflwyniad a'r Adolygiad (pan fydd wedi'u cwblhau) i'r Fforwm Mynediad Lleol.<br>**Cam Gweithredu** – Kirsten Stiles (KS) i fynychu cyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol.<br>**Cam Gweithredu** – Eitem Agenda i'r cyfarfod nesaf.<br><br>**Eitem 3 – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLl)**<br><br>MH – Aeth i gyfarfod CDLl. Nid yw Dynodiad Tirwedd wedi'i gwblhau ac nid yw wedi'i gynnwys mewn dogfennaeth CDLl gyfredol. Cwestiynu Dynodi Dyffryn Tywi fel Ardal Tirwedd Arbennig (ATA)? Ymholiad wedi'i rannu gan KB - a yw Mynediad / hawliau tramwy cyhoeddus wedi'u gynnwys yn y CDLl?<br><br>**Cam Gweithredu** – Egluro safbwynt CDLl ynghylch Dynodi Tirwedd a chynnwys Mynediad / hawliau tramwy cyhoeddus. | Ysgrifenyddiaeth Dros Dro y Fforwm Mynediad Lleol<br>Ysgrifenyddiaeth Dros Dro y Fforwm Mynediad Lleol<br>Ysgrifenyddiaeth Dros Dro y Fforwm Mynediad Lleol |

| | |
|---|---|
| **Eitem 4 – CYNLLUN ARFAETHEDIG I OSOD PEILONAU YN NYFFRYN TYWI**<br><br>MH – Trosolwg byr ac wedyn trafodaeth gyffredinol. Gallai gael effaith negyddol ar fynediad a thwristiaeth. Fforwm Mynediad Lleol i gael golwg ar y prosiect.<br><br>**Cam Gweithredu** – Ymateb i ddatblygwr i sicrhau bod y Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei gynnwys fel ymgynghorai. | MH |
| **Eitem 5 – CYNIGION RHEOLEIDDIO TRAFFIG CILFFYRDD CYDWELI**<br><br>MH – wedi cymryd rhan mewn ymweliad safle gydag aelodau eraill o'r Fforwm Mynediad Lleol i archwilio'r llwybrau ar 05/03/2023. Wedi darparu adroddiad adborth gydag argymhellion i KS. Mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn argymell bod angen i'r Awdurdod wneud mwy o ymgysylltu ac ymchwil cyn gwneud penderfyniad terfynol. Wedi cwestiynu'r ffaith nad oedd llwybr 11/8 wedi'i gynnwys ac yn awgrymu y gallai dulliau eraill liniaru materion diogelwch wrth y gyffordd. Wedi gofyn pam bod arwyddion cilffordd wedi'u gosod ar lwybrau nad oeddent yn gwbl hygyrch.<br>JL – Dywedwyd mai'r adran Priffyrdd, nid Mynediad Cefn Gwlad, sydd â'r cyfrifoldeb gweithredol dros gilffyrdd.<br><br>**Cam Gweithredu** – Dilyn trywydd y mater gyda KS. | MH |
| **Eitem 6 – CYNIGION TEITHIO LLESOL, CAERFYRDDIN**<br><br>PG – Aeth i gyfarfod a chyflwyniad dros Zoom. Wedi darparu trosolwg o'r prosiect. Mae'r ymgynghoriad presennol yn digwydd ar-lein ac yn yr Hwb yn hen siop Debenhams, Caerfyrddin (cyfnod ymgynghori rhwng 20/02/2023 a 02/04/2023).<br>Rhai eitemau sy'n peri pryder:<br>• Dim sôn am le i storio beiciau'n ddiogel.<br>• Mae'n anodd dod o hyd i bwyntiau gwefru (cyfanswm o 5).<br>• CSC i ddarparu rhai 'Beiciau Cargo' trydan sydd yn Llanelli ar hyn o bryd.<br><br>PS – Esbonio cefndir ynghylch y 'Beiciau Cargo'. Yn pryderu na ymgynghorwyd â'r Fforwm ac yn argymell y dylai pobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Wedi gofyn pam nad yw tri llwybr beicio a adeiladwyd yn flaenorol ac sydd wedi hen ennill eu plwyf (Glangwili, Glan yr Afon, Fferm Morfa), a'r bont feiciau, wedi'u cynnwys yn y cynigion. | |
| **Eitem 7 – CAMAU YN CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**<br><br>**2) YMGYNGHORIAD YNGHYLCH CAU CROESFAN AR YR A48**<br>MH - A yw ymgynghorwyr yn ymwybodol o'r gofyniad bod yn rhaid cadw a chynnal croesfannau cerddwyr?<br>JG – Awgrymodd fod y Fforwm Mynediad Lleol yn ysgrifennu at Atkins.<br>MH – Awgrymodd y dylid briffio'r Cynghorydd Thomas.<br>PS – Amlinellodd gynigion ar gyfer cyfyngiadau cyflymder a chau cyffyrdd.<br>JG – Awgrymodd y dylid defnyddio arwyddion/signalau 'Pegasws' wrth groesfannau ar gyfer marchogion.<br>**Cam Gweithredu -** Cysylltu â'r Cynghorydd Thomas. | |

| | |
|---|---|
| **3) ADRODDIADAU AR FATERION**<br>MH - Nid oes adroddiadau newydd ar faterion.<br>RL – A gawn ni adroddiadau ar faterion cyn diwedd mis Mawrth?<br>**Cam Gweithredu** – Darparu Adroddiad ar Faterion. | MH |
| **5) DIWEDDARIAD AM BROSIECTAU**<br>MH – Beth yw'r sefyllfa bresennol ynglŷn â'r deg prosiect arfaethedig?<br>**Cam Gweithredu** – Cael diweddariad gan Alan Warner (CSC). | |
| **6) CYFARFOD CADEIRYDDION Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL**<br>MH – Memorandwm i aros nes bydd y Pennaeth Gwasanaeth newydd yn y swydd.<br>**Cam Gweithredu** – Swyddog Llwybr Arfordir Cymru i gael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol. | Ysgrifenyddiaeth Dros Dro y Fforwm Mynediad Lleol |
| **7) CYNIGION MARCHOGAETH YM MHARCIAU CSC**<br>MH / trafodaeth gyffredinol.<br>PS – problemau ym Mynydd Mawr sy'n ymwneud â llwybr rhannu defnydd lle bydd angen uwchraddio'r arwyneb.<br>**Cam Gweithredu** – Cysylltu â NT. | Ysgrifenyddiaeth Dros Dro y Fforwm Mynediad Lleol |
| **CYFARFOD MARCHNATA HTC**<br>MH – Rhoddodd wybod i'r Fforwm Mynediad Lleol fod fersiwn ddrafft newydd o daflen gerdded wedi dod i law. Mae'n gadarnhaol bod y tîm Twristiaeth bellach yn ymgysylltu â'r Fforwm Mynediad Lleol.<br>Trafodaeth gyffredinol. Mae pawb yn eithaf positif ynglŷn â'r daflen, er bod yna nifer o fân wallau / camlythreniadau. | |
| **BEICIO AR LWYBRAU TROED**<br>PS – Amlinellodd y sefyllfa gyfreithiol ynghylch llwybrau beicio a adeiladwyd gan CSC. Nid yw beicio'n gyfreithlon nes bod gwaith cyfreithiol wedi'i gwblhau gan CSC / Trafnidiaeth Cymru. Wedi rhybuddio'r Aelod Cynulliad a swyddog Teithio Llesol Cymru. Bydd angen ailddynodi llwybrau, naill ai fel Llwybrau Beicio neu Llwybrau Ceffylau. | Ysgrifenyddiaeth Dros Dro y Fforwm Mynediad Lleol |
| **SAFLE COETIR BROWNHILL**<br>PM - Mae CNC yn gweithio gydag ymgynghorwyr i gynllunio'r safle a bydd cynllun arfaethedig yn cael ei rannu gyda'r Fforwm Mynediad Lleol. Mae plannu coed gwirfoddol yn digwydd (llydanddail brodorol). Mae Swyddog Coedwig Genedlaethol newydd wedi'i benodi i ehangu Coedwig Genedlaethol drwy gynnwys tir preifat ger coedwigaeth Llywodraeth Cymru sy'n eiddo cyhoeddus a reolir gan CNC. | MH |
| **MAP O DIR COMIN**<br>JG – Beth fydd mapiau wedi'u digideiddio yn ei gynnwys? Beth fydd yn digwydd gyda'r dogfennau gwreiddiol, a fyddan nhw'n cael eu trosglwyddo i'r Archif Sirol?<br>Cam Gweithredu – Cysylltu â Swyddog Tir Comin CSC, Andrew Paterson. | |
| **YMWELIAD Â'R ARCHIFAU**<br>JL – wedi derbyn rhywfaint o ddiddordeb, ond dim dyddiad penodol.<br>Trafodaeth gyffredinol - penderfynwyd y dylid awgrymu dyddiadau ac ailgysylltu ag aelodau Fforwm Mynediad Lleol i drefnu'r ymweliad.<br>**Cam Gweithredu** – Cysylltu â'r Archifau i bennu dyddiadau addas a threfnu ymweliad. | |
| **GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG PARHAOL CYFREDOL** | |

| | |
|---|---|
| MH / Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd - wedi gofyn am restr o Orchmynion Rheoleiddio Traffig presennol. Esboniodd MH fod tîm cyfreithiol Priffyrdd yn hynod brysur yn cyflwyno'r prosiect 20mya newydd, gyda thros 600 o Orchmynion i'w prosesu. Felly, mae'n annhebygol y bydd y rhestr hon ar gael eleni. | |
| **Eitem 8 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL**<br>MH – Gofynnodd pam nad oedd dim yn y Cofnodion blaenorol am gyflwyniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Wedi derbyn e-bost yn manylu ar safleoedd CSC a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bydd Canolfan Ymwelwyr Pendine yn cael ei lansio ddydd Iau 23 Mawrth. | Ysgrifenyddiaeth Dros Dro y Fforwm Mynediad Lleol |
| **STRATEGAETH FARCHOGAETH**<br>JL – Eglurodd fod hyn yn cael ei lunio a'i arwain gan Caroline Ferguson (CF), sydd bellach ar gyfnod mamolaeth. Wedi trafod y sefyllfa bresennol gyda Richard Waters, Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth CSC. Mae angen ei ailddrafftio ac nid yw'n barod eto ar gyfer y pwyllgor craffu / ymgynghoriad cyhoeddus.<br>Trafodaeth gyffredinol, mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn anhapus am ba mor hir y mae'r broses yn ei gymryd. | Ysgrifenyddiaeth Dros Dro y Fforwm Mynediad Lleol |
| **DIWYGIO MYNEDIAD**<br>JG - Hoffai gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol / diwygiad o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.<br>**Cam Gweithredu** – Dilyn trywydd y cais.<br><br>**EITEMAU AGENDA AR GYFER Y DYFODOL**<br>PG – **Mynediad i'r ysbyty a pharcio**. Mae tri safle ysbyty newydd wedi'u cynnig, ac mae hwn yn gyfle i wella opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy.<br>PS – Mae hawl tramwy cyhoeddus yn croesi'r safle arfaethedig yn Sanclêr, y gellid ei wella fel rhan o'r datblygiad. Gallai hyn gynnwys llwybr i gerddwyr dros yr A40 lle mae croesfan llwybr peryglus ar hyn o bryd.<br><br>PM – **BRECHFA GORLLEWIN** Mae CNC yn dod i ddiwedd y broses o greu llwybr cerdded 12 milltir o amgylch coedwig Gorllewin Brechfa. Mae gwefan CNC yn cael ei diweddaru. Bydd gweithredwyr safleoedd RWE yn cael lansiad swyddogol, ond mae hyn wedi'i ohirio oherwydd gwaith cynaeafu coedwigoedd presennol. Mae beicwyr hefyd yn defnyddio'r llwybr.<br>JG – cododd bryderon ynghylch yswiriant mewn perthynas â'r tyrbinau, gan fod rhai llwybrau yn mynd yn agos at y tyrbinau, ac o fewn TAN 8 argymhellwyd pellteroedd diogel (uchder disgyn a 10%).<br>PM – byddai yswiriant CNC / RWE ar waith ar gyfer ymwelwyr.<br>MH – Gallai busnesau lleol sy'n hyrwyddo defnydd ymwelwyr o'r safle roi ymwadiad ar unrhyw ddeunydd y maent yn ei ddarparu i gwsmeriaid gan nodi eu bod yn defnyddio'r safleoedd ar eu risg eu hunain.<br>**Cam Gweithredu** – Rhoi diweddariad i'r Fforwm Mynediad Lleol ynghylch y lansiad swyddogol. | MH / Ysgrifenyddiaeth Dros Dro y Fforwm Mynediad Lleol |
| Cyfarfod nesaf Dydd Llun 6 Mehefin,<br>Canolfan Tywi, Llandeilo | |